# Cynllun Gweithredu Cymdogaeth



# Y RHWS

## Gorllewin y Fro

# CYNLLUN GWEITHREDU CYMDOGAETH

## I ardal y Rhws

Dyma'r Cynllun Gweithredu Cymdogaeth i ardal Y Rhws. Mae un Ysgol Gynradd, Ysgol Gynradd y Rhws sy'n bwydo i Ysgol Gyfun Llanilltud. Mae nifer o siopau lleol ar y briffordd yn y Pentref, gan gynnwys meddygfa, fferyllydd, swyddfa bost, trinwyr gwallt a llyfrgell gymunedol.


Mae gan Barc Hamdden Ffontygari bwll nofio a champfa sydd ar agor i'r gymuned i'w defnyddio.

Mae'r ardal yn cael ei gwasanaethu'n dda gyda llwybrau bysiau a gorsaf reilffordd. Mae grŵp mamau a phlant bach o'r enw 'Cheeky Rascals' sy'n defnyddio'r ganolfan gymunedol yn rheolaidd.

## Ffeil ffeithiau cymdogaeth

- 30 Mehefin 2017 - Mae 2,463 o bobl yn byw yn y Rhws.
- Mae gan yr ardal ddosbarthiad trefol/ gwledig o: Tref a chyrion gwledig
- Y Bwrdd Iechyd Lleol yw Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
- Yr Ardal Heddlu i Ddinas Powys yw Heddlu De Cymru.
- Yr Awdurdod Tân ac Achub i'r Rhws yw Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.

Mae 96 eiddo sy'n perthyn i'r Cyngor yn yr ardal; yn cynnwys 27 o dai, 49 o fflatiau ac 20 byngalo i bobl hŷn. Hefyd mae 45 eiddo lesddaliadol a 51 garej. Mae'r mwyafrif o'r eiddo o fath adeiladu traddodiadol ac fe'u hadeiladwyd rhwng 1945 a 1964.


Sports Ground
Y Rhws/
Rhoose
CHURCH ROAD
CASTLE ROAD
STEWART ROAD
SOUTH VIEW
PORTHKERRY ROAD
Rhws Primary School
Hall
Station





# Beth yw Cynllun Gweithredu Cymdogaeth?





# Beth yw ei nodau?

Mae Cynllun Cymdogaeth y Rhws yn nodi ystod o flaenoriaethau lleol penodol sy'n bwysig i bobl sy'n byw ar yr ystad.

Mae'r Cynllun yn ystyried ystod eang o wybodaeth gan gynnwys canlyniadau ymgynghori â phreswylwyr, canlyniadau'r arolwg boddhad tenantiaid ar raddfa fawr, data economaidd-gymdeithasol gan gynnwys iechyd, cyflogaeth a thlodi ynghyd â themâu cylchol a nodwyd gan staff. Gyda'i gilydd, mae'r wybodaeth hon yn ffurfio'r blaenoriaethau sy'n effeithio ar fywydau pobl, gan gynnwys materion amgylcheddol, hyrwyddo cymunedau gweithredol ac ymdrin â throsedd a diogelwch.

Nodir nifer o gamau sy'n ymdrin â'r materion blaenoriaeth ar yr ystad, a bydd y rhain yn cael eu cyflawni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf er mwyn gwella'r gymdogaeth a gwneud gwahaniaeth i fywydau tenantiaid.

Mewn arolwg tenantiaid diweddar a gwblhawyd yn yr ardal, cadarnhaodd 33% o denantiaid eu bod yn adnabod Tîm Cymdogaeth yr ardal. O ystyried y wybodaeth hon, bydd y Cynllun Cymdogaeth hefyd yn edrych ar sut y gall y tîm gynyddu ei bresenoldeb yn yr ardal ac adeiladu cysylltiadau cryfach â'r gymuned.

# Gwybodaeth allweddol i'r gymuned

| | |
|---|---|
| Diogelwch cymunedol | Roedd 57% o denantiaid yn fodlon â'r trefniadau ar gyfer delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n unol â chyfartaledd y Fro o 58%.<br>Mae cymdogion swnllyd yn bryder i nifer sy'n byw yn yr ardal gyda 48% o denantiaid yr ardal yn nodi bod hon yn broblem, o gymharu â chyfartaledd y Fro o 35%.<br>Nid oedd 91% o denantiaid sy'n byw yn yr ardal yn ystyried bod defnyddio cyffuriau yn broblem yn y gymuned.<br>Mewn arolwg tenantiaid diweddar, nododd 100% o'r tenantiaid eu bod yn teimlo'n ddiogel neu'n ddiogel iawn yn byw yn yr ardal.<br>"Mae'n dawel - Lle hyfryd i fyw!" "Ardal mor dawel a braf" |
| Cyswllt â chwsmeriaid | Dywedodd 70% o'r preswylwyr fod staff yn barod i helpu a theimlai 67% bod staff yn gallu delio â'u hymholiad yn gyflym ac yn effeithiol<br>Roedd 59% o denantiaid o'r farn ei bod hi'n hawdd cysylltu â'r person iawn sy'n uwch na chyfartaledd y Fro o 66%.<br>Yn ystod arolwg tenantiaid diweddar, nododd 33% o denantiaid eu bod yn adnabod Tîm Rheoli Cymdogaeth yr ardal. |
| Galw am gartrefi | Mae galw da am gartrefi yn yr ardal gyda chyfartaledd o 31 ymgeisydd yn cynnig am bob eiddo sy'n dod ar gael i'w ailosod. |
| Mynediad at wasanaethau | Mae gan bobl yn y gymdogaeth fynediad da at siopau a gwasanaethau. Mae gwasanaethau bws a thrên da sy'n golygu y gall tenantiaid fynd yn hawdd i ganol tref Y Barri neu ymweld ag archfarchnadoedd.<br>Mae ysgol gynradd gymunedol ar yr ystad ac mae digon o leoedd ar gael i blant sy'n byw yn y dalgylch.<br>"Siopau lleol da a'r orsaf reilffordd" |
| Ôl-ddyledion rhent | Dywed 69% o denantiaid yr ardal fod eu rhent yn cynrychioli gwerth am arian. Mae 32% o denantiaid mewn ôl-ddyledion rhent sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd y Fro o 31%; fodd bynnag, mae cyfran uchel o denantiaid yn derbyn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol i dalu eu costau tai. |
| Atgyweirio | Yr amser aros ar gyfartaledd am atgyweiriadau oedd 8 diwrnod. Roedd 64% o denantiaid yr ystad yn fodlon â'r gwasanaeth atgyweirio ac roedd 75% yn teimlo bod atgyweiriadau'n cael eu gwneud yn gyflym. |
| Cyflogaeth | Mae gan y gymdogaeth lefelau uchel o gyflogaeth o gymharu â chymdogaethau eraill o amgylch e.e. Y Barri. Mewn arolwg diweddar nododd tenantiaid yr hoffent gael mwy o gefnogaeth mewn perthynas â gwasanaethau hyfforddi a chyflogaeth yn yr ardal. |
| Incwm yr aelwyd | Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau incwm teulu o gymharu â chymdogaethau eraill yn y Fro. Dengys hyn y gallai rhai teuluoedd ddioddef effeithiau amddifadedd a chael problem cael dau ben llinyn ynghyd. Yn dilyn arolwg tenantiaid diweddar, cadarnhaodd 100% o'r tenantiaid a ymatebodd fod ganddynt rywfaint o ddealltwriaeth o Gredyd Cynhwysol a sut y byddai'r newidiadau yn effeithio arnynt. |

# Gwybodaeth allweddol i'r gymuned (parhad)

| | |
|---|---|
| Trosiant eiddo | Daeth 12 eiddo yn wag y llynedd yn yr ardal (13% o stoc dai yr ardal) |
| Tenantiaid gweithgar | Mae cymuned ragweithiol yn Rhws sydd wedi rhedeg nifer o grwpiau cymunedol yn cynnwys ein tenantiaid, fel Clwb Gwaith Cartref Rhws. Mae'r Tîm Rheoli Cymdogaeth wedi cefnogi'r grwpiau hyn trwy nawdd, codi arian a darparu gweithgareddau cymunedol. Mae'r gweithgareddau hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar blant a theuluoedd ifanc.<br>Nid oes unrhyw fyrddau preswylwyr na fforymau tenantiaid ar gyfer yr ardal hon. |
| Trosedd a niwsans | Dim pryderon sylweddol am droseddu yn yr ardal gyda chyfraddau troseddu is na'r cyffredin ar gyfer y mwyafrif o droseddau ac YGG. |
| Iechyd a llesiant | Mae iechyd 22% o breswylwyr yn cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd y Fro. Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau iechyd ac anabledd pobl o gymharu â chymdogaethau tebyg yn y Fro. Gallai hyn ddangos y gallai fod gan fwy o bobl nag arfer broblemau symudedd o ryw fath neu'i gilydd, eu bod angen rhywfaint o gymorth meddygol tymor hir yn eu cartrefi ac efallai eu bod yn teimlo'n eithaf ynysig. |
| Pobl ifanc | Y boblogaeth yn Rhws oedd 1364 ar 30 Mehefin 2017, ac roedd 242 o bobl (18%) o oedran ysgol (3-19 oed).<br>Mae gan yr ardal gyfran lai o bobl ifanc o'i chymharu â chyfartaledd ehangach y Fro neu Gymru gyda 15.3% o'r boblogaeth rhwng 0-15 oed (o'i gymharu 19% ar draws y Fro) |
| Addysg | Mae lefelau cyrhaeddiad addysgol yn debyg i ardaloedd eraill yn y Fro gyda sgoriau cyrhaeddiad cyfartalog yn is na'r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4. Hefyd mae cyfraddau absenoldeb disgyblion yn debyg i ardaloedd eraill y Fro mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. |
| Mannau agored | Mae nifer o fannau agored yn yr ystad fel Parc Milburn ac ardal chwarae i blant bach wrth ymyl y Ganolfan Gymunedol. |
| Graddfeydd yr ystad | Graddiad cyffredinol yr ystad yw 3. Ymhlith y materion sy'n codi dro ar ôl tro, ceir tipio anghyfreithlon, sbwriel a gwrychoedd sydd wedi gordyfu sy'n ffinio â llwybrau ar draws yr ardal. Mae parcio ar ymylon glaswellt yn yr ystad yn broblem ac mae hyn yn niweidio'r glaswellt yn fawr. |

# Gwybodaeth leol:
## Archwilio eich ystad

Er bod y dangosyddion yn dangos tueddiadau defnyddiol ac yn dangos y ffordd inni i'r cyfeiriad cywir, mae angen mwy o wybodaeth leol arnom i adnabod rhai o'r materion penodol y mae angen inni ymdrin â hwy.

I gasglu'r wybodaeth hon, rydym wedi cynnal archwiliad cymdogaeth, gan holi pobl sy'n byw ac yn gweithio yma i nodi beth yw'r problemau yn eu barn nhw.

| Barn/sylwadau preswylwyr | |
|---|---|
| Mae'r ardal gyfan yn elwa o gymunedau sefydledig a throsiant isel o eiddo. | Mae amlder pobl yn symud i mewn ac allan o'r gymdogaeth yn isel ac mae'n hawdd gosod y mwyafrif o eiddo.<br><br>Mae rhai garejys wedi'u dymchwel ac mae'r ardal wedi'i gwneud yn dda gyda lleoedd parcio a ffensys diffiniedig. Ar hyn o bryd mae gan y Tîm Cymdogaeth 11 garej wag gydag un sy'n "barod i'w gosod". |
| Mae ymddangosiad yr ardal yn dda gyda llawer o fannau gwyrdd. Mae sawl pentref bach yn eistedd ochr yn ochr ag ardaloedd mwy fel Llanilltud Fawr a Sain Tathan. | Mae parcio yn broblem mewn rhai rhannau o'r gymdogaeth yn bennaf oherwydd lled rhai ffyrdd a'r diffyg lle sydd ar gael. |
| Mae ymddangosiad cyffredinol eiddo yn yr ardal yn dda, ac ailwampiwyd y mwyafrif fel rhan o raglen Safon Ansawdd Tai Cymru. | |
| Mae'r tîm Cymdogaeth yn siarad â phreswylwyr yn rheolaidd ond ar hyn o bryd nid ydynt yn gweithio gydag unrhyw fforymau preswylwyr na grwpiau ymgynghorol eraill. Teimlir bod diffyg cyfle i gael mewnbwn rheolaidd gan breswylwyr ar draws y gymdogaeth gyfan. | Nid yw pobl yn ein hadnabod yn ddigon da/ dim cyswllt cryf.<br><br>Angen gwybod mwy am ein tenantiaid/ demograffeg. |

## Fel rhan o'r archwiliad cymdogaeth gofynnwyd i denantiaid nodi'r gwasanaethau pwysicaf iddynt; y tri gwasanaeth uchaf yn yr ardal yw:

- Sicrhau bod atygweiriadau a chynnal a chadw'n cael eu gwneud i safon uchel ac yn amserol
- Cyfathrebu'n effeithiol â thenantiaid, gwrando ar awgrymiadau a gweithredu ar y rhain
- Sicrhau ansawdd cyffredinol y cartrefi

## Pan ofynnwyd i'r tenantiaid beth oeddent yn ei deimlo ddylai fod y blaenoriaethau ar gyfer gwella, amlygwyd y canlynol:

- Datblygu ac adeiladu cysylltiadau cymunedol da
- Gwella diogelwch cymunedol
- Cefnogaeth gyda gwasanaethau cyflogaeth a hyfforddiant

# Camau Gweithredu

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Materion amgylcheddol | | |
| Nodi opsiynau i leihau problemau storio sbwriel a'r effaith ar ymddangosiad y gymdogaeth. | Gwella ymddangosiad y gymdogaeth. | O fewn 6 mis |
| Lleihau'r achosion o daflu sbwriel achlysurol yn y gymdogaeth a lleihau lefel baeddu cŵn mewn ardaloedd cyffredin. | Mynd i'r afael â sbwriel a thipio anghyfreithlon.<br>Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth. | O fewn 6 mis |
| Targedu gerddi sydd wedi gordyfu mewn cartrefi tenantiaid. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.<br>Adeiladu cymunedau cryfach. | O fewn 12 mis |
| Cwblhau adolygiad o dir ar gyfer tai yn yr ardal i ystyried defnyddio hwn i wella parcio. | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.<br>Gwella trefniadau parcio lleol. | O fewn 12 mis |
| Cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth cyfleusterau chwarae lleol mewn ymgynghoriad â phreswylwyr. | Datblygu lleoedd chwarae diogel i blant a phobl ifanc.<br>Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Gwella diogelwch cymunedol.<br>Darparu gweithgareddau cymunedol. | O fewn 6 mis |
| Targedu gerddi sydd wedi gordyfu mewn cartrefi tenantiaid, gan gynnwys gerddi cymunedol | Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.<br>Gwella diogelwch cymunedol. | O fewn 6 mis |

# Camau gweithredu (parhad)

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| **Trosedd a diogelwch** | | |
| Gweithio gyda thenantiaid i nodi pryderon diogelwch cymunedol a datblygu cynllun sut y gellir gwella'r rhain mewn partneriaeth â Bro Ddiogelach. | Gwella diogelwch cymunedol<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. Cynyddu ymgysylltiad â thenantiaid lleol. Adeiladu ymgysylltiad cymunedol. | O fewn 6 mis |
| Gweithio gyda'r Heddlu a Bro Ddiogelach ar wella diogelwch a chynllun plismona mwy cyffredinol sy'n targedu defnyddio cyffuriau ac alcohol, troseddau cerbydau a throsedd yn erbyn grwpiau agored i niwed. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>Gwella diogelwch cymunedol.<br>Gwella ansawdd bywyd cyffredinol pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 12 mis |
| Adeiladu rhwydwaith o hyrwyddwyr tenantiaid a fydd yn gweithredu fel "cymdogion da" i gefnogi pobl sy'n byw yn yr ardal leol ac adrodd am unrhyw bryderon i'r Tîm Cymdogaeth neu PCSO's fel y bo'n briodol. | Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 12 mis |
| **Cymunedau gweithgar** | | |
| Gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Buddsoddi Cymunedol i sefydlu grŵp rhieni ifanc, gan ddod â'r gymuned ynghyd a chefnogi tenantiaid newydd sy'n symud i'r ardal. | Gwella gwasanaethau lleol. Adeiladu ymgysylltiad cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Cefnogaeth gyda chyflogaeth a hyfforddiant.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus.<br>Gwella iechyd a llesiant. | O fewn 12 mis |
| Hyrwyddo bancio amser a chynyddu nifer o oriau gwirfoddoli tenantiaid. | Datblygu cysylltiadau cymunedol da.<br>Darparu mwy o weithgareddau cymunedol.<br>Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd.<br>Cefnogaeth gyda chyflogaeth a hyfforddiant. | O fewn 6 mis |
| Adolygu cyfleusterau a gweithgareddau cyfredol i bobl ifanc. | Gwella gwasanaethau lleol. Adeiladu ymgysylltiad cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Gwella iechyd a llesiant.<br>Gwella diogelwch cymunedol. | O fewn 12 mis |

# Camau gweithredu (parhad)

| Beth? | Pam? | Pryd? |
|---|---|---|
| Gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Buddsoddi Cymunedol i gynnig dewislen o wasanaethau cymorth cyflogaeth a hyfforddiant yn yr ardal. | Cefnogaeth gyda chyflogaeth a hyfforddiant.<br>Adeiladu ymgysylltiad cymunedol.<br>Gwella iechyd a llesiant.<br>Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 12 mis |
| Cynnal digwyddiadau iechyd a llesiant yn yr ardal i ganolbwyntio ar wella llesiant tenantiaid sy'n byw yn yr ardal. Gan gynnwys gweithgareddau chwaraeon fel Clwb Beicio. | Adeiladu ymgysylltiad cymunedol.<br>Gwella iechyd a llesiant.<br>Darparu gweithgareddau cymunedol.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 12 mis |
| Parhau â'r teithiau cerdded misol, gan wahodd y PCSO's lleol - dod i adnabod ein tenantiaid a chynyddu presenoldeb yr heddlu yn yr ardal | Gwella ymgysylltiad â thenantiaid.<br>Adeiladu ymgysylltiad cymunedol<br>Mynd i'r afael ag YGG ac ymdrin â sbwriel neu dipio anghyfreithlon. | Parhaus |
| Gweithio gyda grwpiau lleol a lleoedd cymunedol i sicrhau bod gan denantiaid fynediad at gyfrifiaduron cyhoeddus a Wi-Fi am ddim.<br>Datblygu gwasanaeth cynhwysiant digidol ar gyfer preswylwyr sy'n byw yn yr ardal. | Darparu gweithgareddau cymunedol. Cefnogaeth gyda chyflogaeth a hyfforddiant.<br>Cyngor Ariannol a chefnogaeth gyda chyrchu gwasanaethau digidol. | O fewn 3 blynedd |
| Cwblhau archwiliad o fannau gwyrdd yn yr ardal y gellir ei ddatblygu i greu lleoedd cymunedol neu wella'r amgylchedd lleol. Mae hwn i'w gwblhau mewn ymgynghoriad â phreswylwyr lleol. | Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd. | O fewn 12 mis |
| Creu cardiau cyswllt y Tîm Cymdogaeth, gan gynnwys lluniau a gwybodaeth gyswllt ar gyfer swyddogion. Yna bydd y rhain yn cael eu danfon i holl eiddo Cartrefi'r Fro yn yr ardal.<br>Bydd y rhain hefyd yn cynnwys manylion Teithiau Cerdded Cymdogaeth. | Gwella ymgysylltiad cymunedol.<br>Gwella cysylltiadau cymunedol.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn<br>6 mis |
| Creu grŵp tenantiaid neu fforwm yn yr ardal. | Cynyddu ymgysylltiad â thenantiaid lleol. Adeiladu ymgysylltiad cymunedol.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 12 mis |
| Adeiladu cysylltiadau â grwpiau a sefydliadau lleol i ddatblygu gweithio mewn partneriaeth yn yr ardal. | Cynyddu ymgysylltiad â thenantiaid lleol.<br>Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus. | O fewn 12 mis |




Welcome to
RHOOSE
Please drive carefully
Croeso i'r
RHWS
Gyrrwch yn ofalus
30

# Sut i gysylltu â ni:

**Dros y ffôn:**
01446 700111

**Drwy e-bost:**
housingmanagementteam@bromorgannwg.gov.uk

@valehomes   Cartrefi'r Fro

**Yn ysgrifenedig:**
Depo'r Alps, Quarry Road, Gwenfô CF5 6AA

**Drwy'r we:**
www.bromorgannwg.gov.uk

**Yn bersonol:**
Derbynfa Tai, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn,
Y Barri

8:30 i 5:00 pm o ddydd Llun i ddydd Iau

8:30 i 4:30 pm dydd Gwener

Vale Homes
Safe in our hands

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG